# DATBLYGU POLISI AR IECHYD RHYWIOL – CANLLAWIAU I'R GWASANAETH IEUENCTID

## CYFLWYNIAD

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid a mudiadau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc ran allweddol i'w chwarae yn eu haddysg bersonol, gymdeithasol a iechyd. Mae natur wirfoddol ac anffurfiol y berthynas rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn golygu bod y gwasanaeth ieuenctid mewn safle unigryw i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc ar faterion sensitif megis rhywioldeb, rhyw a pherthnasoedd personol.

Er hynny, darganfu asesiad anghenion a gynhaliwyd yng Nghymru nad yw mudiadau ieuenctid yn y sectorau cynaledig a gwirfoddol wedi llunio polisïau ac ymarfer i ddatblygu'r gwaith hwn. Mae amryw byd o resymau am hyn ond un ohonynt yw diffyg eglurder ynghylch rôl y gwasanaeth ieuenctid a goblygiadau cyfreithiol darparu gwybodaeth a chyngor ar bwnc iechyd rhywiol. Mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys syniadau ac awgrymiadau ar gyfer datblygu polisi a rhaglen iechyd rhywiol ynghyd â gwybodaeth ffeithiol am gyd-destun cyfreithiol gwaith yn y maes cymhleth hwn.

## DATA CYFREDOL

Mae'r ddogfen ymgynghorol **Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo Iechyd Rhywiol yng Nghymru** (1999) wedi adolygu'r data cyfredol am iechyd ac ymddygiad rhywiol poblogaeth Cymru.

### Oedran cyfathrach gyntaf

Mae'r oedran cyfathrach gyntaf yn gostwng ledled Prydain i ddynion a merched. Yn 1991, darganfu'r Arolwg Cenedlaethol o Agweddau a Ffyrdd o Fyw Rhywiol berthynas gref rhwng yr oed ar y pryd ac oedran y gyfathrach gyntaf, yn yr ystyr bod canran uwch o bobl ifanc yn debygol o sôn am ryw dan 16 oed nag yr oedd pobl hyn. Dangosodd y ffigyrau dros Gymru fod 25% o ddynion a 15% o ferched 16-24 oed eu bod yn weithredol yn rhywiol cyn cyrraedd 16 oed.

Tynnodd y data sylw hefyd at wahaniaethau o ran ymddygiad mewn rhannau trefol a gwledig yng Nghymru, yn enwedig yn achos dynion. Roedd dynion mewn ardaloedd trefol ragor na phum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael cyfathrach rywiol cyn bod yn 16 oed na rhai oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Darganfu Arolwg Iechyd Rhywiol Ieuenctid Cymru 1999 a soniodd am wybodaeth, agweddau ac ymddygiad rhywiol pobl 15-16 oed yng Nghymru, fod 40 y cant o'r bechgyn a 35 y cant o'r merched wedi sôn am gael profiad o gyfathrach rywiol am y tro cyntaf rhwng 9 ac 16 oed. Soniodd bron chwarter y bechgyn ac un o bob deg o'r merched am fod wedi cael tri neu ragor o bartneriaid.

**Beichiogi yn yr arddegau (15 – 19 mlwydd oed)**

Er nad yw rhagor na dwy ran o dair o bobl dan 16 oed yn cael rhyw, ceir graddfeydd geni ymhlith pobl yn eu harddegau ym Mhrydain sydd ddwywaith yn uwch na'r Almaen, deirgwaith yn uwch na Ffrainc, a chwe gwaith yn uwch na'r Iseldiroedd. Mae graddfeydd beichiogi yng Nghymru wedi bod yn uwch yn rheolaidd nag yn Lloegr. Yn 1997, y raddfa feichiogi i ferched 15-19 oed oedd 68.5, o gymharu â 62.2 y fil i ferched o'r oedran yma yn Lloegr.

Mae amrywiadau rhanbarthol o ran graddfeydd beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau; yn gyffredinol y duedd yw bod y graddfeydd uchaf i'w cael yn yr ardaloedd lle ceir y graddfeydd erthylu isaf.

**Beichiogi dan oed (13-15 oed)**

Mae niferoedd beichiogi ymhlith merched dan 16 oed yng Nghymru yn gymharol fach. Oddi ar 1992, fodd bynnag, mae'r raddfa yng Nghymru wedi bod yn uwch yn gyson nag yn Lloegr, gan godi'n gyflymach. Yng Nghymru, y raddfa feichiogi dan oed yn 1997 oedd 10.3, o gymharu â 8.8 y fil ymhlith merched 13-15 oed yn Lloegr.

**Pam mae graddfeydd beichiogi ymhlith merched yn eu harddegau mor uchel yng Nghymru?**

Mae adroddiad yr Uned Dieithrwch Cymdeithasol ar feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau yn ymwneud â Lloegr yn unig. Noda dri ffactor yn cyfrannu at raddfeydd beichiogi uchel y gellir efallai eu cymhwyso at y sefyllfa yng Nghymru:

- **Disgwyliadau isel:** Mae beichiogi yn yr arddegau yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc sydd wedi plentyndod dan anfantais ac sydd heb obeithion am y dyfodol.

- **Anwybodaeth:** Mae pobl ifanc heb wybodaeth gywir am feichiogi, clefydau rhywiol, beth i'w ddisgwyl mewn perthynas a beth yw ystyr bod yn rhiant.

- **Negeseuon cymysg:** Mae oedolion yn pledru pobl yn eu harddegau â negeseuon agored o rywiol gan ensynio bod perthynas rywiol yn beth i'w ddisgwyl. Ar y llaw arall, mae rhieni a chynhalwyr yn cael trafferth i drafod rhyw a pherthnasoedd gyda phobl ifanc.

**Erthylu**

Mae'r raddfa terfyniadau ymhlith merched ifanc dan 15 oed wedi codi o 3.1 y fil yn 1995 i 4.1 yn 1996, a chododd y raddfa i rai 15 oed o 7.9 i 9.0.

**Clefydau Rhywiol (STIs)**

Mae STIs yn digwydd yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl dan 25 oed. Y clefyd mwyaf cyffredin y gellir ei wella ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr yw chlamydia. Mae data 1997 yng Nghymru'n dangos y graddfeydd uchaf ymhlith pobl 20 i 24 oed, ond ceir graddfeydd uchel hefyd ymhlith merched 16-19 oed. Darganfu Arolwg Ieuenctid

Cymru 1999 nad oedd ymwybyddiaeth o chlamydia'n uchel, ac nad oedd ond un o bob tair merch ac un o bob pum bachgen 15-16 oed wedi clywed amdano.

Dengys ystadegau diweddar hefyd, ac am y tro cyntaf er 1993, fod cynnydd wedi bod o ran HIV yng Nghymru, gan adlewyrchu cynnydd diweddar yng ngweddill Prydain. Dengys arolygon, fodd bynnag, fod ymwybyddiaeth o beryglon trosglwyddo HIV yn uchel ymhlith pobl ifanc yng Nghymru a darganfu Arolwg Iechyd Rhywiol Ieuenctid Cymru 1999 fod pobl ifanc yn gyffredinol o blaid defnyddio condomau. Er hynny, dywedodd rhagor na hanner y rhai a atebodd iddynt dderbyn rhy ychydig o addysg am glefydau rhywiol.

## PAM MAE ADDYSG RYW A PHERTHNASOEDD YN ANGENRHEIDIOL?

Mae gan bob person ifanc hawl i gyfleoedd sy'n ategu eu datblygiad personol, cymdeithasol a iechyd. Gall darpariaeth addysg ar iechyd rhywiol, a rhyw a pherthnasoedd alluogi pobl ifanc ymbaratoi ar gyfer dod yn oedolion gan eu gwarchod eu hunain rhag niwed a chamdriniaeth.

Nid oes tystiolaeth o blaid y syniad bod addysg rywiol yn annog pobl ifanc i arbrofi'n gynnar. Gall rhaglenni rhyw a pherthnasoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda arwain at oedi cyfathrach rywiol ymhlith pobl ifanc nad ydynt eto'n weithgar yn rhywiol ac at ddefnyddio offer atal cenhedlu'n effeithiol gan rai sydd yn weithgar. Gall addysg am ryw a pherthasoedd ategu datblygiad pobl ifanc a'u galluogi i ddeall eu rhywioldeb eu hunain, gan osgoi dryswch, embaras a phwysau yn deillio o benderfyniadau anwybodus.

## BETH YW YSTYR ADDYSG RYW A PHERTHNASOEDD?

Mae'r Fforwm Addysg Ryw, corff annibynnol yn cynrychioli mudiadau sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth a gwybodaeth am ryw a pherthnasoedd, wedi creu fframwaith defnyddiol. Gall addysg ryw a pherthnasoedd alluogi pobl ifanc i dderbyn gwybodaeth, datblygu sgiliau a datblygu agweddau a chredoau am ryw, iechyd rhywiol, datblygiad rhywiol, rhywioldeb, perthnasoedd a theimladau. Nodwyd tair elfen mewn rhaglenni rhyw a pherthnasoedd:

- Agweddau, gwerthoedd a chredoau – dylai fod cyfleodd ar gael i bobl ifanc archwilio ac egluro eu barnau personol
- Cyfathrebu a datblygu sgiliau personol – gan gynnwys pendantrwydd a negodi; cyfathrebu a sut i feithrin a chynnal perthynas; ffyrdd o ddygymod â phwysau a gwrthdrawiad a gweithgarwch rhywiol dieisiau
- Rhoi gwybodaeth – sy'n adlewyrchu amrywiaeth ymddygiad rhywiol; deddfwriaeth berthnasol; dulliau atal cenhedlu; lledu ac atal STIs ac HIV; camdriniaeth; gwasanaethau cynghori sydd ar gael; cynllunio teuluoedd

(Fforwm Addysg Ryw, 1997)

## BETH DDYLAI POBL IFANC EI WYBOD AM RYW A PHERTHNASOEDD?

Nid yw gwybodaeth ar ei phen ei hun yn ddigon i alluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau iach a chyfrifol ac ni ellir cyfyngu addysg iechyd rhywiol i ddeunydd ffeithiol yn unig. Mae'n rhaid i bobl ifanc wrth gyfuniad o wybodaeth syml a hygyrch, cyfle i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol a chyfleoedd i archwilio cwestiynau a dadleuon moesol.

Mae pobl ifanc am drafod rhyw a pherthnasoedd am nifer o resymau. Gall eu helpu i feithrin hunan-werth, egluro ac archwilio eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hymddygiad rhywiol eu hunain. Gall roi'r hyder iddynt hefyd i ddefnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau pendantrwydd a negodi.

## BETH YW SWYDDOGAETH Y GWASANAETH IEUENCTID?

Mae pobl ifanc yn dysgu am ryw mewn gwahanol ffyrdd – gan gyfoedion, y cyfryngau, rhieni, athrawon a'r gymuned yn fwy cyffredinol. Mae'r gwasanaethau ieuenctid hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad sgiliau personol a chymdeithasol mewn cyd-destunau llai ffurfiol. Mae natur y berthynas sy'n bodoli rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn wirfoddol ac anffurfiol ac mae'r gwasanaeth ieuenctid mewn safle delfrydol i gynnig cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc ar faterion sensitif megis iechyd rhywiol, rhywioldeb a pherthnasoedd personol.

Gall cyd-destunau anffurfiol fel clybiau ieuenctid fod yn arbennig o bwysig o safbwynt cysylltu â rhai o'r grwpiau mwyaf diamddiffyn sydd leiaf tebygol o fynychu'r ysgol. Mae swyddogaeth y gwasanaeth ieuenctid yn natblygiad personol, cymdeithasol a iechyd pobl ifanc yn hynod bwysig yn hyn o beth.

Mae gan weithwyr ieuenctid hawl i beidio â chymryd rhan mewn addysg ryw a pherthnasoedd. Dylent, fodd bynnag, fod yn gyfrifol am gyfeirio pobl ifanc at wasanaethau iechyd rhywiol lleol perthnasol a ffynonellau cymorth eraill lle bo modd.

## PAM CAEL POLISI AR IECHYD RHYWIOL?

Mae llawer o weithwyr ieuenctid yn ansicr ynghylch eu swyddogaeth o ran darparu cyngor a gwybodaeth am iechyd rhywiol i bobl ifanc a hefyd am oblygiadau cyfreithiol y gwaith hwn. Mae addysgu pobl ifanc am faterion iechyd rhywiol yn codi nifer o ystyriaethau cyfreithiol, rhyw, ethnig, diwylliannol a moesol. Mae polisi iechyd rhywiol yn cynnig fframwaith eglur ar gyfer trafod y materion rhywiol hyn, rhywioldeb, ymddygiad rhywiol a pherthnasoedd personol o fewn y gwahanol ddimensiynau hyn. Gall greu rhesymeg ar gyfer datblygu gwaith yn y maes hwn, awgrymu syniadau am gynnwys a threfn y cwricwlwm, ac egluro pryderon cyfreithiol. Gall gynnig fframwaith moesau a gwerthoedd ar gyfer darparu addysg ryw a pherthnasoedd sy'n cydnabod gwahanol ddiwylliannau a chredoau.

## DATBLYGU POLISI

Mae'r camau hyn yn dangos un ffordd o ddatblygu polisi ar iechyd rhywiol. Canllawiau ydynt ar gyfer gweithredu. Bydd pob mudiad gwaith ieuenctid sydd am newid neu ddatblygu polisi iechyd rhywiol yn amodi ac yn addasu'r awgrymiadau hyn yn ôl yr angen. Mewn gwirionedd, prosesau yw'r camau hyn, sy'n parhau trwy gyfnod llunio a gweithredu polisi. Bydd gan bob mudiad fan cychwyn gwahanol parthed datblygu a gweithredu polisi iechyd rhywiol a bydd diagram A (tudalen X) o help wrth ichi benderfynu eich lle yn y cylch.

### Cam 1: Rhoi datblygu polisi iechyd rhywiol ar yr agenda

Bydd cychwyn y gwaith hwn yn dibynnu ar eich swyddogaeth. Bydd y syniadau hyn o gymorth wrth gychwyn:

- Codwch y mater gyda'r rheolwyr uwch, naill ai mewn llythyr neu drwy gwrdd â'r unigolion perthnasol. Tynnwch sylw at bwysigrwydd gwaith iechyd rhywiol, a rhyw a pherthnasoedd personol i bobl ifanc; a rhowch enghreifftiau o ystadegau perthnasol, cyfarwyddiadau polisi cenedlaethol a'r fframwaith deddfwriaethol.

- Mesurwch y gefnogaeth a cheisiwch unrhyw gymorth a all fod ar gael gan yr awdurdod lleol, awdurdod iechyd a mudiadau statudol a gwirfoddol eraill sydd â diddordeb.

- Ystyriwch sut y bydd pobl ifanc ac ymarferwyr gwaith ieuenctid yn cymryd rhan yn natblygiad y polisi.

- Adolygwch y sefyllfa bresennol.
  - beth yw'r bylchau mewn polisi ac ymarfer iechyd rhywiol ar hyn o bryd?
  - a yw'n gweithio?
  - oes unrhyw fesurau dros dro?
  - beth am bolisïau cysylltiedig eraill, er enghraifft, cyfle cyfartal, amddiffyn plant, HIV/AIDS, cyfrinachedd?
  - a wyddoch am y cyfarwyddiadau a'r ddeddfwriaeth berthnasol?

### Cam 2: Cyfrifoldeb

- Dewiswch rywun digon medrus a phrofiadol i fod yn gyfrifol dros gydlynu datblygiad y polisi newydd.

- Dewiswch bobl allweddol yn eich mudiad, rheolwyr uwch a'r gymuned, sy'n debyg o fod yn gefnogol i'r fenter.

- Dewiswch adnoddau, partneriaethau a rhwydweithiau priodol.

**Cam 3: Ffurfio gweithlu**

- Mynnwch gynnwys unigolion a grwpiau allweddol yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau lle mae'ch mudiad yn gweithio. Gallai'r gweithlu gynnwys:

- pobl ifanc
- gweithiwr ieuenctid
- cynrychiolaeth swyddogion ieuenctid yr AALl
- aelod/cynghorydd etholedig
- gweithwyr o'r sector gwirfoddol
- arbenigwr/aig hyrwyddo iechyd

Swydd gyntaf y gweithlu fydd nodi tasgau a phenderfynu ar hyfforddiant, er enghraifft:

- adolygu'r polisi presennol
- casglu gwybodaeth
- datblygu argymhellion ar gyfer polisi newydd a'i weithredu

**Cam 4: Rhesymeg y polisi**

- Sefydlwch resymeg dros newid y polisi neu dros bolisi newydd

  - pam mae angen polisi newydd?
  - beth yw'r data cyfredol parthed pobl ifanc, iechyd rhywiol ac ymddygiad rhywiol?
  - beth fydd y manteision?

**Cam 5: Casglu gwybodaeth**

- Penderfynwch ar y math o wybodaeth a fydd yn ddefnyddiol, o ble a chan bwy

- Casglwch wybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen, megis enghreifftiau o bolisïau eraill

**Cam 6: Drafftio polisi**

- Adolygwch y data a'r wybodaeth a gasglwyd

- Defnyddiwch y rhain i'ch helpu i ddrafftio polisi

- Cadwch bethau'n syml a phenodol

- Nodwch ble mae'r polisi'n gymwys

- Nodwch ar gyfer pwy mae'r polisi'n gymwys

- Nodwch sut y bydd y polisi’n cael ei weithredu a’i fonitro

**Cam 7: Ymgynghori ar bolisi drafft**

- Ymgynrhorwch yn helaeth naill ai trwy gyfarfodydd neu drwy ddefnyddio’r gweithgor i adrodd yn ôl wrth eu cydweithwyr

- Defnyddiwch y broses ymgynghori i nodi cyfyngiadau a phroblemau potensial

- Nodwch oblygiadau’r polisi

- Mynnwch sêl bendith y rheolwyr uwch

**Cam 8: Cyfathrebu’r polisi**

- Mae polisi iechyd rhywiol newydd yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol os caiff pawb wybod amdano cyn iddo gael ei weithredu.  Dylai’r wybodaeth hon gynnwys disgrifiad o’r polisi newydd, rhesymau dros ei newid, dyddiad gweithredu, trefniadau gweithredu, a sut y caiff y polisi ei fonitro a’i adolygu.

**Cam 9: Gweithredu**

- Caniatewch ddigon o amser i bobl ymbaratoi ar gyfer gweithredu’r polisi newydd

- Cyfathrebwch y polisi i bawb a effeithir ganddo

    - pwy fydd yn derbyn y polisi a sut byddant yn ei ddefnyddio?
    - pa wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc
    - pwy sy’n gyfrifol am ei weithredu a beth yw’r amserlen ar gyfer hyn?

**Cam 10: Monitro ac adolygu**

- Sut bydd monitro’n cael ei gynnal?

- Sut bydd cael adborth gan bawb a effeithir gan y polisi?  Pa ddulliau a ddefnyddir h.y. cyfweliadau, grwpiau trafod, holiaduron?

- Ble bydd y problemau?

- Sut mae ymdrin â phroblemau?

Diagram A

**Cam 1**

**Rhoi datblygiad polisi iechyd rhywiol ar yr agenda**

**Cam 2**

**Cyfrifoldeb**

**Cam 3**

**Fffurfio gweithgor**

**Cam 4**

**Rhesymeg y polisi**

**Cam 5**

**Casglu gwybodaeth**

**Cam 6**

**Drafftio polisi**

**Cam 7**

**Ymgynghori ar y polisi drafft**

**Cam 8**

**Cyfathrebu'r polisi**

**Cam 9**

**Gweithredu**
**Cam 10**

**Monitro ac adolygu**

## MATERION CYFREITHIOL

### Cyfrinachedd

Mae'n hanfodol bod mudiadau gwaith ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn deall ffiniau cyfrinachedd. Mae buddiannau pobl ifanc yn hollbwysig ac yn gyffredinol, dylid cytuno ar ffiniau cyfrinachedd a fydd yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth ofyn am gefnogaeth.

Dylid parchu cyfrinachedd pobl ifanc oni bai fod gweithiwr ieuenctid yn credu eu bod mewn perygl o gael eu niweidio neu o niweidio rhywun arall. Rhaid i bobl ifanc wybod efallai y bydd yn rhaid datgelu cyfrinachau. Mewn amgylchiadau felly, dylid hysbysu'r person ifanc pam a sut y bydd y gyfrinach yn cael ei rhannu a dylai dderbyn cefnogaeth gyda'r broses. Dylai gweithwyr ieuenctid fod â fframwaith polisi wrth gefn sy'n eu hannog i ddod i benderfyniad proffesiynol er lles y person ifanc.

Nid oes dyletswydd ar weithwyr ieuenctid i hysbysu rhieni am dystiolaeth o weithgaredd rhywiol neu unrhyw amheuon o'r fath, er bod y Ddeddf Plant 1989 yn ei gwneud yn eglur y dylid ffurfio partneriaeth gyda rhieni bob amser lle bo hynny'n bosibl.

### Ymarfer gwrthwahaniaethol

Mae'n hanfodol bod materion megis hil, diwylliant, crefydd, dosbarth cymdeithasol, rhywioldeb ac anabledd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu gwaith ar iechyd rhywiol, rhyw a pherthnasoedd. Mae llawer o ragdybiaethau am ryw a pherthnasoedd personol ac mae'n bwysig i weithwyr ieuenctid herio'r rhain ac archwilio eu credoau eu hunain hefyd. Mae parch i amrywiaeth pobl ifanc a'u hanghenion yn hanfodol.

### Crefydd, hil, diwylliant a pherthnasoedd personol

Mae'r Ddeddf Plant 1989 yn mynnu bod:

"Yr Awdurdod Lleol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i grefydd, tarddiad hiliol a chefndir ieithyddol y person ifanc" (adran 22 (5))

Mae'r Fforwm Addysg Ryw (1993) yn argymell bod addysg ryw a pherthnasoedd yn sensitif i anghenion pobl ifanc, gan gynnwys yr anghenion hynny a ffurfir gan grefydd, hil a diwylliant. Gall gwahaniaethau crefyddol a diwylliannol effeithio ar y modd y caiff rhaglenni iechyd rhywiol eu datblygu. Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, y dylid gwarafun gwybodaeth i'r bobl ifanc dan sylw. I'r gwrthwyneb, yr her i weithwyr ieuenctid yw datblygu rhaglenni sy'n hygyrch i bob person ifanc, ond sydd hefyd yn parchu ac yn arddel gwahaniaethau.

Bydd yn rhaid i weithwyr ieuenctid nad ydynt o'r un grefydd â'r bobl ifanc ddysgu am y ffydd honno tra'n ceisio peidio â dod i gasgliadau ar sail y wybodaeth honno. Dylai unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r polisi a'r rhaglen iechyd rhywiol fod yn briodol o safbwynt diwylliannol a chrefyddol a dylid dewis adnoddau ar yr amod eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig, diwylliannol a chrefyddol.

**Dysgu am wrywgydiaeth**

Mae Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn gwahardd awdurdodau lleol rhag hyrwyddo gwrywgydiaeth. Mae Cylchlythyr yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth (5/94) yn datgan bod "y gwaharddiad hwn yn berthnasol i weithrediadau awdurdodau lleol eu hunain." Nid oes reswm, felly, pam y dylai gweithwyr ieuenctid hepgor dysgu am wrywgydiaeth o'u cwricwlwm rhyw a pherthnasoedd. Nid yw'r Ddeddf yn gwahardd darparu gwybodaeth na chynghori pobl ifanc sydd, neu sy'n meddwl y gallent fod, yn lesbiaidd neu'n wrywgydiol. Nid yw chwaith yn gwahardd darparu cyngor na gwybodaeth i bobl ifanc am atyniad cyfunrywiol gan weithwyr ieuenctid awdurdodau lleol, na sefydlu prosiectau a mentrau yn benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n meddwl amdanynt eu hunain fel lesbiaid neu hoywon.

Ni fyddai Adran 28 ond yn cael ei thorri pe bai gweithiwr mewn mudiad yn gwneud ymdrech ymwybodol i berswadio pobl ifanc i gymryd rhan mewn perthynas lesbiaidd neu hoyw.

**Cyngor ar atal cenhedlu**

Gall plant sydd wedi cyrraedd 16 oed gael cyfathrach rywiol yn gyfreithlon yn ogystal â'r hawl i driniaeth feddygol (adran 8 y Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969).

Sefydlwyd y gyfraith yng Nghymru a Lloegr gan ddyfarniad Ty'r Arglwyddi yn achos Gillick yn 1985 fod pobl ifanc dan 16 oed a all ddeall yr hyn a gynigir yn gymwys i gydsynio i driniaeth feddygol ni waeth am eu hoedran. Ni fyddai'n drosedd i feddyg ddarparu cyngor neu driniaeth i ferched dan 16 oed mewn amgylchiadau felly. O ganlyniad, gall meddygon ddarparu cyngor ar atal cenhedlu i rywun dan oed cydsyniad os ydynt yn fodlon bod y person ifanc yn gallu deall cyngor y meddyg ac yn ddigon aeddfed i ddeall y goblygiadau moesol, cymdeithasol ac emosiynol .

Nid yw Cylchlythyr yr Adran Addysg a Chyflogaeth 5/94 yn rhoi ond ychydig gyfarwyddyd am y sefyllfa gyfreithiol parthed darparu cyngor ar atal cenhedlu. Dywed Paragraff 39:

"rhaid arfer gofal arbennig mewn perthynas â chyngor ar atal cenhedlu i ddisgyblion dan 16 oed, y mae cyfathrach rywiol yn anghyfreithlon iddynt. Y rheol gyffredinol yw y gallai rhoi cyngor i ddisgybl unigol ar faterion o'r fath yn ddiarwybod i rieni neu heb eu cydsyniad gamarfer cyfrifoldebau athro neu athrawes."

Nid oes angen cydsyniad rhieni ar gyfer pobl dan 16 oed sy'n ceisio cyngor neu driniaeth ar atal cenhedlu. Mae'n annhebygol iawn hefyd y byddai unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni wrth wneud dim mwy na darparu cyngor i berson ifanc. Yn ogystal, gall gweithwyr ieuenctid yn sicr drin cwestiynau ynghylch materion rhyw gan bobl ifanc fel rhywbeth cyfrinachol. Yng ngoleuni hyn, gellir darparu addysg a gwybodaeth am atal cenhedlu a lle y gall pobl ifanc gael cyngor ar atal cenhedlu a thriniaeth.

**Dosbarthu condomau**

Nid oes cyfraith yn atal gweithwyr ieuenctid rhag rhoi condomau i bobl dan 16 oed. Arfer da hefyd fyddai darparu gwybodaeth am ddefnyddio condomau a rhyw ddiogelach yr un pryd gan y byddai hyn yn help i chwalu rhai o'r mythau a'r camsyniadau parthed eu defnyddio.

## Y CWRICWLWM GWAITH IEUENCTID AR IECHYD RHYWIOL, RHYW A PHERTHNASOEDD

Mae gan fudiadau gwaith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae wrth addysgu pobl ifanc am iechyd rhywiol, rhyw a pherthnasoedd. Mae natur unigryw y berthynas rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc yn golygu hefyd bod gweithwyr ieuenctid mewn safle delfrydol i gynnig cymorth anffurfiol, unigol i bobl ifanc gyda materion sensitif. Mae ''r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru'n cynnwys fframwaith ar yfer datblygu'r gwaith hwn.

**Pwrpasau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**

Pwrpasau gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:

- hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person ifanc fel y gallant gyflawni eu potensial fel unigolion galluog ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau;
- cefnogi pobl ifanc wrth iddynt ddod yn oedolion;
- cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau a sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio eu hadnoddau a'u hamser personol yn bwrpasol.

**Mae gwaith ieuenctid felly'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n:**

- **ADDYSGOL** – gan alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r agweddau angenrheidiol i adnabod, eirioli a mynnu eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- **CYFRANOGOL –** trwy berthnasoedd lle mae pobl ifanc yn bartneriaid yn y prosesau dysgu a'r strwythurau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylchedd eu hunain ac ar eiddo pobl eraill.
- **GALLUOGOL** – gan alluogi pobl ifanc i ddeall a gweithredu ar y materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau ac ar y cymunedau y maent yn perthyn iddynt.
- **MYNEGIANNOL** – gan annog a galluogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau, eu hemosiynau, eu dyheadau a'u hunaniaeth ddiwylliannol trwy greugarwch a gweithgareddau heriol, yn enwedig rhai sy'n gwella eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, treftadaeth a diwylliannau Cymru.

Dylid cynllunio'r cyfleoedd uchod i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb trwy herio gormes ac anghydraddoldeb, gan dderbyn gwahaniaethau sy'n deillio o hil, hunaniaeth rywiol, anabledd, oedran a chrefydd, a chan gydnabod amrywiaeth iaith a diwylliant yng Nghymru.

**Darparu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru**

Darperir gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy bartneriaeth rhwng awdurdodau addysg lleol a mudiadau gwirfoddol yn cydweithio ac yn gweithio'n annibynnol i ddarparu neu i hwyluso:

- **rhaglenni addysgol anffurfiol a strwythuredig** sy'n herio pobl ifanc ac yn hybu eu datblygiad personol ac ysbrydol a'u haddysg gymdeithasol a gwleidyddol;
- **lleoedd a pherthnasoedd** lle gall pobl ifanc fwynhau, gan deimlo'n ddiogel ac yn werthfawr, lle gallant ddysgu bod â mwy o reolaeth dros eu bywydau ac adnabod a gwrthsefyll y dylanwadau niweidiol a all eu heffeithio;
- **mynediad** i wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd priodol gan gynnwys eirioli dros hawliau pobl ifanc.

Cynorthwyir darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru gan **ymchwil** briodol i'r materion a'r tueddiadau sy'n cael effaith neilltuol ar fywydau pobl ifanc trwy gydweithio â'r asiantaethau a'r gwasanaethau priodol y gellir manteisio ar eu harbenigedd er mwyn hybu anghenion, diddordebau a hawliau pobl ifanc.

**Blaenoriaethau**

- Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn agored i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran 11-25, ond rhoddir blaenoriaeth i rai ar fin dod yn oedolion yn yr oedran 13-19.

- Pennir grwpiau a materion blaenoriaethol yn genedlaethol, yn lleol neu gan fudiadau ac fe'u seilir ar egwyddorion sicrhau ansawdd mynediad a chyfle.

**Darpariaeth**

- Dylid penderfynu'r math, y dull a'r cymysgedd o ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn lleol a/neu gan fudiadau.
- Dylid ystyried datblygu darpariaeth briodol mewn perthynas ag anghenion unigolion a grwpiau, canlyniadau dymunol a phwrpasau. Gall y dulliau darpariaeth gynnwys:

  - gwaith mewn canolfannau
  - canolfannau ar gyfer rhannau arbenigol o'r cwricwlwm
  - gwaith allanol
  - gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd
  - darpariaeth symudol
  - gwaith estyn
  - gwaith prosiect
  - gwaith preswyl
  - darpariaeth wedi ei thargedu at grwpiau penodol

(ddaswyd o'r Fframwaith ar gyfer Arolygu Addysg Bellach yr Awdurdodau Addysg Lleol SPAEM 1998)

## CYNNWYS Y CWRICWLWM

Mae’r gwaith iechyd rhywiol gorau gyda phobl ifanc yn anaml yn anffurfiol. Mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc yn croesawu’r cyfle i gael amser a rhyddid i sgwrsio. Gall amgylchfyd anffurfiol feithrin hefyd ddatblygiad sgiliau cymdeithasol, megis gwrando ar bobl eraill, negodi, gwneud penderfyniadau gwybodus a sôn am emosiynau a pherthnasoedd.

Yn unol ag arfer da mewn gwaith ieuenctid, dylid datblygu cynnwys y rhaglen iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd mewn cydweithrediad â phobl ifanc a dylai ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, agweddau a dealltwriaeth. Dylai’r rhaglen adlewyrchu profiadau, credoau a diwylliant y bobl ifanc a’u hategu.

Gall rhaglen iechyd rhywiol fod rhywbeth yn debyg i hyn:

### Amcanion

- Galluogi pobl ifanc i ddeall agweddau ar ddatblygiad corfforol, emosiynol a rhywiol
- Darparu cefnogaeth a gwybodaeth i bobl ifanc am iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau hunan-werth parch a meddwl am bobl eraill, cyfrifoldeb personol, a ffurfio a meithrin perthynas â phobl eraill
- Annog pobl ifanc i ddatblygu sgiliau i fynegi eu rhywioldeb mewn ffordd gadarnhaol

### Sut mae darparu rhaglenni iechyd rhywiol mewn cyd-destunau gwaith ieuenctid?

- fel rhan o raglen gyffredinol o Addsg Bersonol, Cymdeithasol a Iechyd
- fel ymateb i gwestiwn neu sylw gan berson ifanc
- fel cyswllt ag ymgyrchoedd cenedlaethol o godi ymwybyddiaeth, er enghraifft, Diwrnod Aids Rhyngwladol
- sesiynau ar wasanaethau lleol a chyngor ar atal cenhedlu

### Cynnwys

Gall **pynciau** allweddol gynnwys:

- Glasoed – enwau rhannau’r corff, delwedd corff, deall eich corff eich hun, newidiadau corfforol ac emosiynol

- Perthnasoedd – pendantrwydd, pwysau cyfoedion, gwneud penderfyniadau, meithrin perthynas â’r teulu a ffrindiau, hunanddelwedd a hunaniaeth, iaith corff, perthnasoedd platonig a rhywiol, moesoldeb

- Rhywioldeb – ymddygiad rhywiol, ffyrdd o fyw rhywiol a gwahanol dueddiadau rhywiol, gwerth rhyw mewn perthynas, yr hawl i beidio â bod yn weithredol yn rhywiol, camdriniaeth a'r gyfraith

- Iechyd rhywiol – cenhedlu, beichiogi, atal cenhedlu a rhyw ddiogelach, anffrwythlondeb, lles personol, y misglwyf, beichiogi damweiniol, erthylu, STIs, HIV/AIDS, Ymwybyddiaeth o'r Fron, Cancr Ceg y Groth, Cancr y Ceilliau

- Roliau yn ôl rhyw – Agweddau newid at roliau yn ôl rhyw, rhywiaeth a chyfle cyfartal

- Addysg a Bywyd Teuluol – amrywiadau ar strwythur a maint y teulu, bod yn rhieni a gofalu, effaith plant ar eich ffordd o fyw

- Swydd asiantaethau allanol – asiantaethau lleol a chenedlaethol perthnasol, sut i fynd atynt a'u defnyddio

- Cyfrinachedd – parchu hawl cyfrinachedd pobl ifanc sy'n dewis trafod materion personol eu naws

**Datblygu sgiliau**

- gwneud penderfyniadau
- cyfrifoldebau mewn perthynas
- pendantrwydd a negodi
- cyfathrebu – gwrando a siarad
- rheoli a mynegi teimladau
- gofyn cwestiynau a chael help a chymorth
- cefnogi pobl eraill
- ymdopi
- datrys gwrthdrawiad
- gwrthsefyll pwysau dieisiau

## SGILIAU ALLWEDDOL

Datblygwyd sgiliau allweddol yn wreiddiol gan yr hen Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol (NCVQ) i'w defnyddio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.  Y manylebau oedd y sgiliau hanfodol angenrheidiol i bobl ifanc allu gweithredu'n effeithiol fel aelodau o weithlu hyblyg, addasadwy a chystadleuol. Fe'u hystyrir hefyd yn werthfawr o ran helpu pobl i weithredu mewn cymdeithas ac ar gyfer dysgu trwy oes.

Cynlluniwyd Sgiliau Allweddol i alluogi pobl i fod yn hyderus a chymwys wrth gyfathrebu ar lafar ac ar bapur; wrth gymhwyso rhifau a thaclo problemau rhifyddol ac wrth gasglu, cofnodi, dehongli a chyflwyno data; defnyddio TG; gweithio gyda phobl eraill; gallu gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain, a sgiliau datrys problemau.

Y Sgiliau Allweddol yw:

- Cyfathrebu
- Cymhwyso Rhifau
- Technoleg Gwybodaeth
- Gweithio gyda Phobl Eraill
- Gwella eich dysgu a'ch perfformiad eich hunain
- Datrys Problemau

Fe'u disgrifir yn nhermau Unedau ar bum lefel ac maent yn gymwys i bawb, o bobl ifanc i oedolion mewn gyrfaoedd sefydlog. Mae'r Unedau'n egluro'r wybodaeth a'r tasgau angenrheidiol ar gyfer pob lefel.

**Beth yw'r cyswllt rhwng Sgiliau Allweddol a rhaglen iechyd rhywiol i bobl ifanc?**

Mae'r sgiliau allweddol yn gymwys i bobl ifanc mewn sawl cyd-destun, gan eu bod yn galluogi pobl ifanc i gyfathrebu'n well ac i gyfrannu fel aelodau o dîm. Gall addysg bersonol, gymdeithasol a iechyd, gan gynnwys gwaith ar bwnc iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd (gweler **CYNNWYS Y CWRICWLWM**) greu nifer o gyfleodd i ddatblygu'r sgiliau allweddol, er enghraifft ar lefel 2:

**Cyfathrebu –** gall pobl ifanc gymryd rhan a chyfrannu at drafodaethau ar rywioldeb, beichiogi damweiniol a iechyd rhywiol

**Gweithio gyda phobl eraill –** gall pobl ifanc gynllunio a threfnu sesiwn gydag ymwelydd

**Gwella Eich Dysgu a'ch Perffromiad eich hun –** adolygu gwybodaeth a faint a ddysgwyd

**Datrys problemau –** nodi problemau mewn perthynas â beichiogi damweiniol a dieisiau gan awgrymu opsiynau

**TG –** darganfod ystadegau lleol am iechyd ac ymddygiad rhywiol pobl ifanc

**Cymhwyso Rhifau –** dehongli'r ystadegau hyn

Gall iechyd rhywiol ac addysg am rwy a pherthnasoedd personol datblygu sgiliau hefyd sy'n ategu dysgu gan gynnwys rheoli emosiynau, dygymod â straen a mynediad at gymorth.

## SUT I GYNNWYS POBL IFANC, RHIENI A'R GYMUNED YN GYFFREDINOL

### Cynnwys pobl ifanc

Rhaid i unrhyw waith ar iechyd rhywiol, rhyw a pherthasoedd personol i bobl ifanc wrth gyfraniad y bobl ifanc eu hunain. Mae'n hanfodol deall eu hanghenion a'r pynciau sydd o ddiddordeb iddynt, eu gwybodaeth gyfredol, a ffynonellau gwybodaeth hefyd. Mae'n bwysig cael gwybod anghenion pobl ifanc oherwydd:

- maent yn gwybod am faterion sy'n bwysig iddynt yn y gymdeithas gyfoes
- maent yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y gweithgareddau
- mae addysg am ryw a pherthnasoedd yn debygol o fod yn fwy effeithiol os bydd yn berthnasol i'w bywydau

Mae'r broses o lunio polisi'n cynnig cyfle i gynnwys pobl ifanc o'r cychwyn cyntaf. Rhywbeth llawer mwy gweithredol a deinamig yw cymryd rhan, fodd bynnag. Mae'n rhaid i bobl ifanc deimlo bod pobl yn gofyn am eu barn o ddifrif a'u bod yn cyfrannu rhywbeth gwerthfawr at y broses.

### Pa gyfraniad y gellir ei ddisgwyl gan bobl ifanc?

- meddyliwch am y rhesymau dros gynnwys pobl ifanc ac am sut y gall eu barnau helpu i lunio datblygiad y polisi
- ystyriwch ddulliau o geisio gwybodaeth, er enghraifft, grwpiau ffocws, holiaduron, cyfweliadau unigol
- beth rydych am ei ddysgu? (gall y rhestr wirio hon fod o help yn hyn o beth)

    - barnau am gyfrinachedd
    - pobl y mae pobl ifanc yn teimlo y gallant ymddiried materion iechyd personol ynddynt
    - barn pobl ifanc am gynnwys rhaglen iechyd rhywiol, er enghraifft, cenhedlu, glasoed, glanweithdra personol, iechyd rhywiol
    - barn pobl ifanc am eu haddysg ryw a pherthnasoedd hyn yn hyn
    - unrhyw bryderon eraill?

### Cynnwys rhieni a'r gymuned yn gyffredinol

Nid oes deddfwriaeth sy'n mynnu bod y gwasanaeth ieuenctid yn ceisio caniatâd rhieni i grybwyll na throsglwyddo gwybodaeth fel rhan o raglen iechyd rhywiol. Ond ystyrir yn gyffredinol mai arfer da yw cynnwys rhieni a'r gymuned yn gyffredinol wrth ddatblygu gwaith ar iechyd rhywiol, rhyw a pherthnasoedd personol.

Mae'r Ddeddf Plant (1989) yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio ar y cyd â rhieni ar bopeth yn ymwneud â meithrin plant. Mae'r Ddeddf yn dweud bod gan rieni gyfrifoldebau a bod lles y plentyn yn hollbwysig. Os yw rhiant yn amharod i adael i blentyn gael gwybod am ryw a pherthasoedd personol, rhaid i staff benderfynu ar y cyd â'r person ifanc beth sydd orau yn y pen draw. Mae'r Ddeddf yn dweud hefyd:

“ Rhywioldeb fydd un o’r pethau mwyaf grymus sy’n effeithio ar unrhyw berson ifanc wrth droi o blentyndod i fod yn oedolyn.”

Dywed pobl ifanc yr hoffent i’w rhieni fod yn brif ffynhonnell gwybodaeth am faterion rhyw (Balding 1997). Mae llawer o rieni, fodd bynnag, yn credu nad oes ganddynt na’r wybodaeth na’r sgiliau perthnasol i wneud hynny (NFER 1997). Mae’n bosibl eu bod yn perthyn i gymuned hefyd lle ni thrafodir materion o’r fath yn agored.

Cafwyd bod agwedd rhieni tuag at faterion rhywiol yn ffactor o bwys mewn perthynas ag amseriad profiad rhywiol. Darganfu arolwg gan Ingham (1997) fod pobl ifanc yn llai tebygol o fod wedi cael profiad rhywiol dan 16 oed yn y teuluoedd hynny lle trafodir materion o’r fath yn agored, o gymharu â theuluoedd sy’n mabwysiadu naill ai agwedd “foesolgar” neu sy’n gwrthod sôn am faterion rhywiol. Yng ngoleuni hyn, peth buddiol i bawb fyddai cae; rhieni a chynhalwyr yn cydweithio â mudiadau gwaith ieuenctid i ddatblygu polisi a rhaglenni iechyd rhywiol. Yn y lle cyntaf, bydd yn rhaid i rieni a chynhalwyr wybod sut y bydd materion rhyw yn cael eu trin a chael cyfle i drafod hynny a mynegi unrhyw bryderon. Mae’n bosibl bod gan rai rhieni, er enghraifft, gredoau crefyddol neu foesol sy’n dylanwadu ar eu hagwedd tuag at ryw a pherthnasoedd personol. Rhaid cydnabod a pharchu’r rhain.

**Cyfrinachedd – oes rhaid rhoi gwybod i rieni?**

Mae Cylchlythyr 5/94 yr Adran Addysg a Chyflogaeth a Chylchlythyr 45/94 y Swyddfa Gymreig yn awgrymu y dylid adrodd os datgelir neu os drwgdybir gweithgarwch anghyfreithlon. Nid yw athrawon a gweithwyr ieuenctid dan orfod torri cyfrinachedd yn enwedig os teimlant y byddai peidio â gwneud er budd gorau’r person ifanc.

Felly, nid oes raid rhoi gwybod i rieni. Er hynny, gall fod amgylchiadau lle bydd gweithwyr ieuenctid yn teimlo bod angen cysylltu â rhieni. Er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl ifanc yn cael eu gwarchod ac er mwyn cynnal ymddiriedaeth rhwng clybiau ieuenctid a phobl ifanc, dyma ychydig o gamau defnyddiol y gellir eu cymryd i egluro’r sefyllfa:

- dylai gweithwyr ieuenctid esbonio wrth ddisgyblion na allant warantu cyfrinachedd cyfan gwbl
- dylid trafod lefelau cyfrinachedd gyda phobl ifanc wrth negodi rheolau’r sesiynau rhyw a pherthnasoedd
- dylai ymgynghori â rhieni gynnwys trafod cyfrinachedd. Trwy ichi agor y ddadl, bydd rhieni’n fwy tebygol o ymddiried yn synnwyr cyffredin a barn broffesiynol gweithwyr ieuenctid

Gellir trafod cyfrinachedd trwy ddatgan polisi’r clwb ieuenctid ar iechyd rhywiol ac addysg ryw a pherthnasoedd.

**Sut mae cynnwys rhieni, cynhalwyr a'r gym uned yn gyffredinol?**

- Dosbarthwch y polisi ar iechyd rhywiol – a gofynnwch am sylwadau, barnau ac adborth
- Dosbarthwch wybodaeth am sesiynau iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd
- Trefnwch sesiynau rhagflas lle gall rhieni, cynhalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned gymryd rhan
- Trefnwch gyfarfod i rieni i'w hysbysu am y rhaglen iechyd rhywiol a gofynnwch iddynt roi eu barn am anghenion y bobl ifanc
- Gwahoddwch rywun oddi allan i sôn am fater o ddiddordeb i rieni a chynhalwyr, er enghraifft, gweithiwr hybu iechyd lleol neu rywun o glwb ieuenctid arall sydd wedi cael llwyddiant yn y gorffennol
- Gwahoddwch rieni i arwain sesiwn ac i sôn am eu profiadau pan oeddynt yn iau

**Defnyddio ymwelwyr a siaradwyr oddi allan**

Ffordd arall o gynnwys aelodau'r gymuned yw trwy adnabod unigolion gydag arbenigedd neilltuol mewn addysg ryw a pherthnasoedd a gofyn iddynt arwain un o'r sesiynau. Gall ymwelwyr oddi allan megis ymgynghorydd mewn clinig GUM, cynghorydd HIV, neu nyrs o glinig atal cenhedlu, wella ansawdd profiad dysgu'r bobl ifanc yn ddirfawr. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod ymwelwyr yn cael gwybod digon ymlaen llaw am gyd-destun y gwaith. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu defnyddio fel rhan o gynllun rhaglen iechyd rhywiol ac nid fel sesiwn ar ei phen ei hun. Arfer da yw rhoi copi o'r polisïau a'r canllawiau ymarfer perthnasol iddynt.

## <u>GWASANAETHAU LLEOL</u>

Mae anwybodaeth am atal cenhedlu a defnydd anghyson o ddulliau atal cenhedlu yn cyfrannu at raddfeydd uchel o feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau. Mae rhagor o bobl ifanc yng Nghymru yn defnyddio clinigau atal cenhedlu a iechyd rhywiol cymunedol. Yn 1997/98, roedd 28 y cant o'r menywod a fynychai'r clinigau dan 20 oed o gymharu â dim 16 y cant yn 1990/91; o'r rhain, roedd 6 y cant dan 16 oed o gymharu â dim ond 1.4 y cant yn 1990/91.

Mae mynediad i wasanaethau atal cenhedlu yn bwnc pwysig i bobl ifanc. Mae anawsterau mynediad a materion yn ymwneud â diffyg cyfrinachedd go iawn neu dybiedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yn y cymoedd, yn destun pryder i bobl ifanc. Mae gwasanaethau atal cenhedlu ar gael gan ystod eang o ddarparwyr ond y rhai mwyaf derbyniol gan bobl ifanc yw'r rheini y gellir eu defnyddio ar adegau anghymdeithasol gyda staff gofalgar a heb fod yn feirniadol. Gall fod cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y defnydd a wneir o wasanaethau a'u lleoliad, ac mae cyswllt rhwng graddfeydd beichiogi a lefel a math y gwasanaethau atal cenhedlu sydd ar gael yn lleol.

Gall rhaglen iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd gynnig digon o gyfle i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o wasanaethau lleol. Gellir gwahodd siaradwyr i ddarparu gwybodaeth ac i redeg sesiynau ar yr hyn sydd ar gael (gweler yr adran **Defnyddio ymwelwyr a siaradwyr oddi allan)**. Hefyd, gall trefnu ymweliadau â chanolfannau iechyd rhywiol pobl ifanc fod yn ffordd dda o'u cynefino â'r gwasanaethau hyn.

## SUT I ATEB CWESTIYNAU ANODD

**Alla i roi cyngor ar atal cenhedlu i bobl dan 16 oed?**

Gallwch. Gall gweithwyr ieuenctid gynnig gwybodaeth am iechyd rhywiol ac atal cenhedlu i bobl ifanc, gan gynnwys rhai dan 16 oed. Lle bo'n briodol, dylid cyfeirio pobl ifanc at weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol

**Alla i ddosbarthu condomau i bobl mwy a llai na 16 oed?**

Nid oes cyfraith yn atal gweithwyr ieuenctid rhag rhoi condomau i unigolion dan 16 oed a mwy nag 16 oed. Arfer da, fodd bynnag, fyddai rhoi gwybodaeth am ddefnyddio condomau ac arferion rhyw ddiogelach yrr un pryd.

**Ddylwn i fradychu cyfrinachedd rhywun ifanc?**

Na ddylech, hyd y gellir ei osgoi! Mae'r gyfraith yn caniatáu i weithwyr ieuenctid barchu hawl person ifanc i gyfrinachedd wrth drafod materion personol neu rywiol. Yr unig eithriad yw pan fydd gweithiwr ieuenctid yn drwgdybio bod person ifanc mewn perygl o gael niwed sylweddol. Os felly, dylai gweithwyr ieuenctid geisio annog y person ifanc i ddatgelu'r wybodaeth neu gytuno iddi gael ei datgelu. Os nad yw hynny'n bosibl, bydd yn rhaid i'r gweithiwr ieuenctid ystyried a ddylai fradychu cyfrinachedd heb gydsyniad y person ifanc. Beth bynnag a ddigwydd, dylai pobl ifanc gael eu cynnal trwy broses glir a diffiniedig i ddeall pam na all rhai mathau o wybodaeth aros yn gyfrinachol.

**Ga i sôn am lesbiaeth a gwrywgydiaeth?**

Cewch. Nid oes rheswm pam na ddylai gweithwyr ieuenctid benderfynu cynnwys sesiynau ar gyfunrywiaeth a lesbiaeth yn eu rhaglenni iechyd rhywiol.

**Gweithiwr ieuenctid mewn ysgol ydw i. A yw hyn yn gwneud gwahaniaeth?**

Rhauid i weithwyr ieuenctid mewn ysgolion fod yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ar iechyd rhywiol a rhyw a pherthnasoedd, ac o unrhyw ganllawiau a dogfennau polisi perthnasol.

**Lle mae cychwyn? Sut mae perswadio'r awdurdodau bod polisi ar iechyd rhywiol yn bwysig?**

Gofalwch eich bod yn gyfarwydd â'r ystadegau, y cyfarwyddyd a'r ddeddfwriaeth. Tynnwch sylw at unrhyw anawsterau sydd wedi codi yn y gorffennol oherwydd diffyg fframwaith polisi a defnyddiwch hyn yn fan cychwyn. Codwch y mater gyda'r rheolwyr uwch, naill ai mewn cyfarfod anffurfiol gyda rhai sydd â diddordeb, trwy drefnu cyflwyniad ffurfiol gydag agenda strwythuredig, neu drwy gyhoeddi dogfen drafod i ymgynghori arni.

**Nid wyf yn gyfforddus wrth roi gwybodaeth am faterion rhywiol i'r bobl ifanc yn fy nghlwb ieuenctid. Beth ddylwn i ei wneud?**

Bydd rhai gweithwyr efallai am beidio â chymryd rhan mewn trafod iechyd rhywiol, rhyw a pherthnasoedd personol gyda phobl ifanc am amryw byd o resymau. Mae hyn yn berffaith iawn, ond gallant gyfeirio'r bobl ifanc at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth eraill.

**A all person ifanc dan 16 oed gael cyngor ar atal cenhedlu a defnyddiau?**

Gall pobl dan 16 oed dderbyn cyngor a defnyddiau atal cenhedlu gan:

- Clinigau cynllunio teulu
- Clinigau ymgynghorol i bobl ifanc
- Meddygon teulu (ond nid condomau fel arfer)
- Clinigau genito-wrinaidd (GUM)
- Prosiectau neu ganolfannau galw-i-mewn

## FFYNONELLAU


Aggleton P, Oliver C a Rivers K (1998) Reducing the rate of teenage conceptions: The implications of research into young people, sex, sexuality and relationships

All Party Parliamentary Group on AIDS (1992) HIV/AIDS and Sex Education for Young People Occasional Paper no. 3

Adran Addysg a Chyflogaeth (1999) Paratoi Pobl ifanc i fod yn Oedolion Adroddiad gan y Grwp Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Bersonol, Gymdeithasol a Iechyd

Adran Addysg a Chyflogaeth (1999) Egluro Sgiliau Allweddol

Hybu iechyd Cymru (1997) Canllawiau i weithwyr ieuenctidar faterion cyfrinachedd wrth weithio gyda phobl ifanc dan 16 oed

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo Iechyd Rhywiol yng Nghymru

SPAEM (1998) Fframwaith ar gyfer Arolygu Addysg bellach Gynaledig Awdurdodau Addysg Lleol

Patel-Kanwal H a Frances-Lenderyou G (1998) Let's talk about sex and relationships A policy and practice framework for working with children and young people in public care

Royal Pharmaceutical Society of Great Britain (1999) Contraception and sexual health

Sex Education Forum (1993) Religion, Ethnicity, Sex Education: Exploring the issues

Sex Education Forum (1998) Highlight number 158 Young People's Sexual Attitudes and Behaviour

Sex Education Forum (1999) Highlight number 168 Sex Education

Social Exclusion Unit (1999) Teenage Pregnancy

White S (1995) Confidentiality in Schools A training manual